



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Datganiad Polisi Cyflog

Mawrth 2018

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Fframwaith Deddfwriaethol.....	3
Diffiniadau a'r Cyfrifoldeb ar gyfer Penderfyniadau o ran Cyflogaeth	3
Telerau Cyflogaeth ac Amodau Gwasanaeth.....	4
Trefniadau Cydfargeinio	4
Egwyddorion Cyflog	4
Trefniadau Cyflog.....	5
Taliadau a Lwfansau Ychwanegol.....	5
Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru	5
Pecyn Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth Ehangach	6
Adolygu'r Datganiad hwn	6
Atodiadau:	6
Atodiad 1: Graddau, Graddfeydd Cyflog a Chyfrif Pennau Cyfoeth Naturiol Cymru ...	7
Atodiad 1a: Graddau a Chyfrif Pennau Hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru.....	8
Atodiad 2: Cyflogau Uwch-reolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.....	9
Atodiad 3: Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.....	10
Atodiad 4: Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres	11
Atodiad 5: Cyflogiadau Newydd heb fod ar y Gyflogres.....	12
Atodiad 6: Trefniadau Aelodau'r Bwrdd	13

Cyflwyniad

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd system gyflog sy'n gyfartal i bawb, yn briodol a thryloyw, yn cynnig gwerth am arian, ac yn gwobrwyo staff mewn modd teg ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud. Mae'r datganiad polisi hwn yn amlinellu dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cyflogau a'r berthynas rhwng cyflog gweithwyr a chyflog uwch-reolwyr.
2. Paratowyd y datganiad hwn yn unol ag egwyddorion '[Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru](#)' Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.
3. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys yr atodiadau canlynol:
 - Atodiad 1 – Graddau, Graddfeydd Cyflog a Chyfrif Pennau Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Atodiad 1a – Graddau a Chyfrif Pennau Hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Atodiad 2 – Cyflogau Uwch-reolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Atodiad 3 – Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Atodiad 4 – Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres
 - Atodiad 5 – Cyflogiadau Newydd heb fod ar y Gyflogres
 - Atodiad 6 – Trefniadau Aelodau'r Bwrdd

Fframwaith Deddfwriaethol

4. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y grym i benodi staff o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol wrth bennu tâl a chydabyddiaeth ariannol ei staff.

Diffiniadau a'r Cyfrifoldeb ar gyfer Penderfyniadau o ran Cyflogaeth

5. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am argymhell i Lywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet trefniadau cyflog priodol ar gyfer staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r staff yn gyflogeion o fewn Bandiau 1 – 11, sy'n cynnwys graddau band cymorth, gweithredol, technegol, rheolaethol ac arweinyddol. Mae'r grŵp hwn, felly, yn cynnwys holl staff Cyfoeth Naturiol Cymru, ac eithrio'r cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr.
6. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o 1 Awst 2018) yn gyfrifol am sicrhau bod undebau llafur yn cyfrannu'n llawn at drafodaethau mewn perthynas â chyflog, yn ysbryd partneriaeth gymdeithasol a thrwy gytundeb cydfargeinio.
7. Ni chaiff rolau uwch-reolwyr eu dirprwyo, ac felly caiff eu trefniadau cyflog priodol eu gweithredu yn unol â'r arweiniad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn argymhellion gan y Cadeirydd mewn perthynas â'r Prif Weithredwr, a chan y Prif Weithredwr mewn perthynas â Chyfarwyddwyr Gweithredol a chyfarwyddwyr.
8. Mae Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch cyflog uwch-aelodau staff ac am reoli perfformiad, potensial a dawn uwch-aelodau staff a gwneud argymhellion i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Mae'r

pwyllgor yn sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth yn cael eu trin mewn modd teg a phriodol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae gan y pwyllgor rywfaint o hyblygrwydd i bennu a yw lefel y perfformiad gan Gyfarwyddwyr Gweithredol / cyfarwyddwyr yn haeddu cynyddiad cyflog, er enghraifft. Cadeirir y pwyllgor gan gyfarwyddwr anweithredol. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r pwyllgor, ei gylch gorchwyl a'i aelodau [yma](#).

9. Mae argymhelliad y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth, o ran cyflog y Prif Weithredwr, yn destun cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Telerau Cyflogaeth ac Amodau Gwasanaeth

10. Mae gan y mwyafrif helaeth o gyflogeion delerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys cyflog, a bennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl cyflwyno ein cynllun gwerthuso swyddi, mae rhai aelodau staff wedi manteisio ar amddiffyniad cyflog ac adlewyrchir hyn yn Atodiad 1 isod.

Trefniadau Cydfargeinio

11. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o'i gydberthynas a phartneriaeth gref gyda chydweithwyr undebau llafur ac mae'n gweithio'n agos gyda nhw ar faterion sy'n ymwneud â chyflog. Mae'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ar gyflogau a'u trafod wedi'u hamlinellu yn ein Cytundeb Partneriaeth.
12. Fel arfer, trafodir dyfarniadau cyflog ar gyfer aelodau staff ar sail flynyddol ond gellir cytuno ar drefniadau eraill – er enghraifft, lle mae'r trefniadau presennol yn cwmpasu cyfnod estynedig neu lle maent wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â datblygu ein cynllun gwerthuso swyddi newydd.

Egwyddorion Cyflog

13. Ynghyd â'r trefniadau cydfargeinio ar gyfer pennu cyflogau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu'r egwyddorion allweddol canlynol mewn perthynas â chyflogau:
 - **Fforddiadwyedd a gwerth am arian** – Mae cytundebau cyflog wedi'u seilio o amgylch fforddiadwyedd a sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus.
 - **Cyflog cyfartal** – Mae trefniadau cyflog yn gynhwysol ar gyfer yr holl aelodau staff, waeth beth fo'u hoedran, statws priodasol (gan gynnwys priodasau cyfartal / o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, anabled, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, neu hunaniaeth o ran rhywedd. Mae Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn a gellir dod o hyd iddo [yma](#).
 - **Gonestrwydd a thryloywder** – Mae manylion cyflog a chydabyddiaeth ariannol llawn aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys o fewn datgeliadau cyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â hyn, bydd cyflogau'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol a chyfarwyddwyr yn cael eu crynhoi bob blwyddyn ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

- **Cyflog cynyddrannol** – Mae gan gyflogeion gyfle i symud i haen uchaf eu graddfa gyflog o fewn uchafswm o bedair neu bum mlynedd yn dibynnu ar eu gradd.
- **Ffocws ar fynd i'r afael â chyflog isel a chefnogi'r cyflog byw** – Mae'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol (a phrentisiaid ar gcontractau hyfforddi) yn derbyn y cyflog byw fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru am fod yn gyflogwr cyflog byw achrededig.

Trefniadau Cyflog

14. Mae cyfraddau presennol bandiau cyflog Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u dangos yn Atodiad 1. Mae Atodiad 1a yn dangos graddau a chyfrif pennau hanesyddol. Fel arfer, mae penodiadau newydd yn cael eu recriwtio ar derfyn isaf y band cyflog perthnasol. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft lle mae tystiolaeth fod cyflogai newydd wedi derbyn cyflog uwch yn union cyn ymuno â Cyfoeth Naturiol Cymru, efallai y caiff ei benodi ar gynyddran uwch o fewn y radd gyflog. Mae cyflogau yn destun cynnydd cynyddrannol bob blwyddyn hyd nes y cyrhaeddir y gyfradd uchaf (fel arfer o fewn tair i bedair blynedd). Nid yw unigolion yr ystyrir eu bod yn tanberfformio yn gymwys i dderbyn cynnydd cynyddrannol. Pan gaiff cyflogeion ddyrchafiad, mae'r cyflog cychwynnol yn unol â therfyn isaf band cyflog y radd newydd. Gellir dod o hyd i niferoedd presennol ac yn y gorffennol ar gyfer staff ar bob gradd yn Atodiad 1 ac 1a yn ôl eu trefn.
15. Mae amrediad cyflog y Tîm Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredol, wedi'i bennu gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn seiliedig ar ddata meincnodi a'i arnodi gan Lywodraeth Cymru, i'w weld yn Atodiad 2.

Taliadau a Lwfansau Ychwanegol

16. Yn dibynnu ar ofynion y busnes, gall cyflogeion fod yn gymwys ar gyfer y taliadau ychwanegol canlynol a lwfansau dewisol eraill yn ystod y cyfnod pan fyddant yn gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys lwfansau proffesiynol a gweithredol, ac ad-dalu costau teithio a chynhaliadau. Mae'r taliadau a lwfansau hyn yn deillio'n rhannol o'r cyrff etifeddol ac yn rhannol o Becyn Holl Fuddion Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddant yn destun adolygiad ffurfiol cyn diwedd 2018.
17. Er mwyn cefnogi newid sefydliadol, gall Cyfoeth Naturiol Cymru, o bryd i'w gilydd, ddewis cynnal ymarferion diswyddo. O dan amgylchiadau o'r fath, cynigir iawndal i gyflogeion yn seiliedig ar y telerau sy'n gysylltiedig â'u cynllun pensiwn priodol (y mae dau ohonynt). Mae'r holl weithgarwch diswyddo wedi'i ategu gan achos busnes sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru

18. Y cyflog isaf o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r gyfradd gychwynnol o fewn amrediad cyflog Gradd 1 (Cymorth Tîm) (£16,835 hyd at £17,919). Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid, sy'n derbyn y cyflog byw. Y Prif Weithredwr yw'r aelod o staff sy'n derbyn y cyflog mwyaf. Mae cymariaethau perthynoledd cyflog mewn perthynas â'r aelod o staff sy'n derbyn y cyflog uchaf (y Prif Weithredwr) a chyflog cyfartalog Cyfarwyddwr Gweithredol wedi'u nodi yn Atodiad 3.

Pecyn Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth Ehangach

19. Yn ogystal â'r cyflog a ddarperir i gyflogeion, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig ystod gynhwysfawr o fuddiannau ariannol ac anariannol yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth cynllun pensiwn, mynediad at drefniadau aberthu cyflog, cyfleoedd dysgu a datblygu (gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus), a chynlluniau llesiant i gyflogeion. Mae amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg modern ar gael hefyd er mwyn cefnogi cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Adolygu'r Datganiad hwn

20. Mae'r datganiad hwn i'w gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn neu pan fo newidiadau sylweddol yn digwydd.

Atodiadau:

- Atodiad 1 – Graddau, Graddfeydd Cyflog a Chyfrif Pennau Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 1a – Graddau a Chyfrif Pennau Hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 2 – Cyflogau Uwch-reolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 3 – Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 4 – Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres
- Atodiad 5 – Cyflogiadau Newydd heb fod ar y Gyflogres
- Atodiad 6 – Trefniadau Aelodau'r Bwrdd

Atodiad 1: Graddau, Graddfeydd Cyflog a Chyfrif Pennau Cyfoeth Naturiol Cymru

	Amrediad Cyflog	Cyfrif Pennau	Cyferth ag Amser Llawn
Gradd 11	£59,909 - £64,424	17	16.0
Gradd 10	£53,888 - £58,403	32	30.5
Gradd 9	£47,910 - £52,301	37	35.8
Gradd 8	£42,053 - £46,446	82	80.1
Gradd 7	£36,502 - £40,935	160	153.1
Gradd 6	£32,090 - £36,197	503	478.1
Gradd 5	£28,215 - £32,090	489	473.9
Gradd 4	£24,528 - £28,215	318	311.9
Gradd 3	£21,154 - £24,528	96	89.5
Gradd 2	£17,919 - £21,154	126	117.4
Gradd 1	£16,835 - £17,919	13	8.6
Cyfanswm:		1,873	1,794.9

Mae'r ffigyrau hyn wedi'u seilio ar gyflogau gwirioneddol ar 31 Mawrth 2018. Pan roddwyd y cynllun gwerthuso swyddi ar waith, cafodd y staff y dewis i 'optio allan' o'r cynllun a chadw eu graddfa gyflog flaenorol. Felly, mae'r staff sydd wedi optio allan wedi cael eu cynnwys ar eu hamrediadau cyflog presennol, nid y graddau a bennwyd trwy werthuso eu swydd.

Atodiad 1a: Graddau a Chyfrif Pennau Hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru

Lefel sy'n Gyfwerth â'r Pecyn Holl Fuddion	Cyfrif Pennau	Cyfwerth ag Amser Llawn	Cyfrif Pennau	Cyfwerth ag Amser Llawn
	31 Mawrth 2017		31 Mawrth 2016	
E2	1	1.0	1	1.0
E1	47	45.8	57	55.8
D3	8	7.3	10	9.7
D2	106	102.1	113	110.4
D1	101	96.1	105	99.5
C3	373	361.1	400	388.7
C2	148	137.8	161	147.8
C1 ac C1W	556	530.1	590	561.2
B3 a B3W	231	223.0	258	247.4
B2	248	237.3	268	254.8
B1	32	23.3	50	37.9
Cyfanswm	1,851	1,765.0	2,013	1,914.3
Cyfarwyddwyr	8	8.0	10	10.0
Secondeion	10	9.4	10	10.0
Prentisiaid	15	15.0	11	11.0

Atodiad 2: Cyflogau Uwch-reolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru

Nifer y Staff	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn £,000	
	145-150	Gellir dod o hyd i ffigyrau ychwanegol ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn adroddiad a chyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru yma
	140-145	
1	130-135	
	120-125	
	115-120	
	110-115	
	105-110	
1	100-105	
1	95-100	
3	90-95	
	85-90	
	80-85	
2	75-80	
	70-75	

Mae'r uchod yn cynnwys yr holl staff ar lefel y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol a chyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2018.

Atodiad 3: Perthynoleddau Cyflog o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru

Y cyflog isaf o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r gyfradd gychwynnol yn amrediad cyflog Cymorth Tîm (Gradd 1). Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid, sydd ar gontractau hyfforddiant ac yn derbyn y cyflog byw. Yr aelod o staff sy'n derbyn y cyflog mwyaf ar hyn o bryd yw'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae'r ffigyrau isod wedi'u seilio ar gyflogau ar 31 Mawrth 2018.

Lluosrif Cyflog		Cymhareb
Cymhareb Isaf i'r Uchaf (Prif Swyddog Gweithredol)	Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr sy'n derbyn y cyflog isaf a'r gweithiwr sy'n derbyn y cyflog uchaf fel cymhareb	1 i 7.72
Cymhareb Isaf i'r Uchaf (Y Tîm Gweithredol)	Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr sy'n derbyn y cyflog isaf a chyflog cyfartalog aelod o'r Tîm Gweithredol fel cymhareb	1 i 5.32
Cymhareb Canolrif i'r Uchaf (Prif Swyddog Gweithredol)	Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol Cyfoeth Naturiol Cymru (ac eithrio'r Tîm Gweithredol) a'r cyflog uchaf fel cymhareb	1 i 4.49
Cymhareb Canolrif i'r Uchaf (Cyfarwyddwr Gweithredol)	Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol Cyfoeth Naturiol Cymru (ac eithrio'r Tîm Gweithredol) a chyflog cyfartalog Cyfarwyddwr Gweithredol fel cymhareb	1 i 3.10
Cymhareb Cyflog Cyfartalog i Gyflog Cyfartalog (Cyfarwyddwr Gweithredol)	Y lluosrif rhwng cyflog cyfartalog Cyfoeth Naturiol Cymru (ac eithrio'r Tîm Gweithredol) a chyflog cyfartalog Cyfarwyddwr Gweithredol fel cymhareb	1 i 2.83

Cyflog uchaf – Band rhwng £130K a £135K

Cyflog canolrifol y gweithlu (ac eithrio'r Tîm Gweithredol) £28,953

Cyflog cyfartalog y gweithlu (ac eithrio'r Tîm Gweithredol) £31,704

Cyflog canolrifol y Tîm Gweithredol (ac eithrio'r Prif Swyddog Gweithredol) £92,500

Cyflog cyfartalog y Tîm Gweithredol (ac eithrio'r Prif Swyddog Gweithredol) £89,626

Atodiad 4: Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres

	CYFANSWM
Nifer y cyflogiadau presennol ar 31 Mawrth 2018	64
O'r rhain...	
Nifer sydd wedi bodoli am lai nag un flwyddyn ar yr adeg adrodd	34
Nifer sydd wedi para rhwng un a dwy flynedd ar yr adeg adrodd	15
Nifer sydd wedi bodoli rhwng dwy a thair blynedd ar yr adeg adrodd	5
Nifer sydd wedi bodoli rhwng tair a phedair blynedd ar yr adeg adrodd	7
Nifer sydd wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar yr adeg adrodd	3

Mae'r manylion uchod ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ar gyfer cyfnodau yn hirach na chwe mis ar 31 Mawrth 2018.

Atodiad 5: Cyflogiadau Newydd heb fod ar y Gyflogres

	CYFANS WM
Nifer y cyflogiadau newydd, neu'r rheiny a barodd chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2018	5
Nifer yr uchod sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â threth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol	0
Nifer y gwnaed cais am sicrwydd ar eu cyfer	5
O'r rhain...	
Nifer y mae sicrwydd wedi'i dderbyn ar eu cyfer	4
Nifer nad ydynt wedi derbyn sicrwydd	1
Nifer sydd wedi dod i ben gan nad oedd sicrwydd wedi'i dderbyn	0

Mae'r ffigyrau uchod ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ers 1 Ebrill 2018.

Atodiad 6: Trefniadau Aelodau'r Bwrdd

	CYFANSWM (Pennau) ar 31/3/18	CYFANSWM (cyfwerth ag amser llawn) ar 31/3/18
Nifer y cyflogiadau newydd o aelodau'r Bwrdd heb fod ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol	AMHERTHNAS OL	AMHERTHNASO L
Nifer yr unigolion yr ystyriwyd eu bod yn aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigwr hwn gynnwys cyflogiadau heb fod ar y gyflogres a'r rhai sydd ar y gyflogres.	11	1.7